Polisi a Chynllun Hygyrchedd

Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr: **D Williams**

Dyddiad: **Tymor yr Haf 2021**

YSGOL GYMUNEDOL PENIEL
POLISI A CHYNLLUN HYGYRCHEDD

1. Cyflwyniad

Mae'r cynllun hwn yn nodi cynigion Corff Llywodraethu'r ysgol i gynyddu mynediad disgyblion anabl at addysg yn y tri maes sy'n ofynnol yn nyletswyddau cynllunio'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

Mae'r cynllun hwn yn ystyried Cynllun Addysg Sengl, Strategaeth Hygyrchedd a Strategaeth Cynhwysiant Awdurdod Addysg Cyngor Sir Gaerfyrddin.

Mae'n ystyried y ffaith bod gan Sir Gâr erbyn hyn wasanaeth Addysg a Phlant integredig a'i fod yn datblygu ei allu i gyflwyno cynllun gwasanaeth sengl i blant drwy bartneriaeth weithgar gyda'r gymuned.

2. Ein Man Cychwyn

Dyma nodau'r ysgol stydd yn adlewyrchu athroniaeth weithredol o gynhwysiant sydd gan yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu, o fewn cymuned Gymraeg, hapus, a diogel, yr ystod ehangaf posibl o brofiadau addysgol, gan baratoi ein plant a'n hieuenctid ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn galluogi pob disgybl i gyflawni ei wir botensial yn academaidd, yn ymarferol ac yn gymdeithasol ac i arddangos parch a chwrteisi tuag at gyd-ddisgyblion ac oedolion. Ysgol Gymraeg yw Ysgol Gymunedol Peniel, a disgwylir i'r disgyblion ddefnyddio'r iaith Gymraeg ar bob cyfle posibl y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth."

Gan mai adeilad cymharol newydd (2009) yw Ysgol Gymunedol Peniel mae'r safle ac adeilad yr ysgol yn hygyrch ar gyfer disgyblion ac oedolion gydag ystod o anableddau a defnyddwyr cadair olwyn. Mae gan yr ysgol ethos o chwarae teg a chyfle cyfartal ac mae dogfennaeth a dulliau gweithredu yr ysgol yn adlewyrchu hyn. Mae hyn yr un mor berthnasol i hygyrchedd y safle ar gyfer pobl anabl.

Mae'r ysgol dros y blynyddoedd, ac yn parhau felly, yn darparu addysg ar gyfer disgyblion gydag ystod eang o anableddau.

Mae gan yr ysgol gyfleusterau a thai bach ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn ac mae gan yr ysgol yr offer angenrheidiol. Mae staff yr ysgol wedi eu hyfforddi i ymdrin gydag ystod o anableddau. Mae'r ysgol hefyd yn addasu darpariaeth cwricwlwm ac adnoddau fel ymateb i anableddau disgyblion, megis cynyddu maint deunydd ar gyfer disgyblion gyda nam gweld a gosod sustemau sain i gynorthwyo disgyblion a nam ar y clyw.

Ein bwriad trwy ail-lunio ac addasu ein polisi a'n cynllun hygyrchedd fel ymateb i deddfwriaeth diweddar yw datgan yr uchelgais sydd gennym ar gyfer ein disgyblion anabl sef ein nod i ddymchwel rhwystrau er mwyn galluogi mynediad i bob agwedd o fywyd ysgol.

3. Ein modd o ddatblygu'n cynlluniau

- Rydym yn cydnabod bod angen i'r staff fod yn ymwybodol o, a deall y dyletswyddau o fewn y cynllun.

- Cafodd holl aelodau'r staff gyfle i gyfrannu at a chynnig sylwadau ynglŷn â'r cynllun.

- Ein nod yw sicrhau bod y cynllun yn eiddo i'r holl oedolion o fewn yr ysgol.

- Rydym wedi nodi'n eglur yr hyn y mae'r dyletswyddau o fewn y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn ei olygu yn yr ysgol hon.

- Rydym yn cydnabod bod gan bob aelod o staff ddyletswydd i ddymchwel rhwystrau dysgu ar gyfer disgyblion anabl.

- Ein dymuniad yw cynnwys disgyblion anabl, eu rhieni a'u gofalwyr wrth ddatblygu, gweithredu ac adolygu'r cynllun hwn.

4. Blaenoriaethau ein gweledigaeth

Mae blaenoriaethau ein gweledigaeth wedi eu cynnwys mewn mannau eraill yn y ddogfen hon. Mae ein gweledigaeth yn cynnwys ac yn golygu bod holl staff a disgyblion yr ysgol yn gwneud pob ymdrech o fewn eu gallu i sicrhau pob chwarae teg a chyfle i ddisgyblion sydd ag anabledd i gyflawni eu potensial yn llawn yn yr ysgol.

5. Ein ffocws – ar holl ddisgyblion sydd ag anabledd a hygyrchedd ein hysgol

Mae gan Ysgol Gymunedol Peniel gysylltiad agos iawn gyda'i 'theulu' o ysgolion cynradd sydd yn rhan o Deulu Ysgol Bro Myrddin ac yn enwedig felly yn y meysydd bugeiliol, gan gynnwys anghenion arbennig, a'r meysyddd cwricwlaidd. Yn flynyddol mae athrawon Bro Myrddin yn ymweld â'r ysgolion cynradd ac yn cyfarfod â holl ddisgyblion Blwyddyn 6 gan gasglu gwybodaeth amdanynt ar gyfer trosglwyddo i Flwyddyn 7 ym Medi. Ymhlith y wybodaeth a gesglir yw'r anawsterau a wynebir gan rai disgyblion o ran dysgu a iechyd corfforol. Mae'r wybodaeth hon yn rhan hanfodol o baratoi ar gyfer cynllunio Bro Myrddin ar gyfer y Medi canlynol.

Bydd yr ysgol hefyd yn derbyn gwybodaeth am ddisgyblion gan asiantau iechyd a gofal cymdeithasol.

6. Ein cryfderau ac anghenion fel ysgol wrth weithio gyda disgyblion anabl

Credwn bod y canlynol yn feysydd o gryfder o ran hygyrchedd yr ysgol ar gyfer disgyblion gydag anableddau :-

- Mae'r adeilad newydd yn hygyrch i ddisgyblion gydag anableddau a defnyddwyr cadair olwyn.
- Mae adroddiad blynyddol y corff llywodraethol i'r rhieni yn cyfeirio at addasrwydd yr adeilad.
- Mae'r Pennaeth a'r cydgysylltydd adran Anghenion Arbennig yr ysgol yn trafod gyda darpar rieni a'u holi i ddarganfod os oes unrhyw anawsterau ac anableddau gan y disgyblion cyn iddynt gychwyn yn yr ysgol. Digwydd hyn fel arfer y tymor cyn i'r disgyblion newydd gychwyn yn yr ysgol er mwyn cynllunio ar gyfer eu gofynion pan fyddant yn cychwyn yn y dosbarth Derbyn.
- Mae lefel ymwybyddiaeth ein staff o'u dyletswyddau o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ar gynnydd.
- Nid yw anawsterau'r adeilad yn golygu bod disgyblion anabl yn methu cael mynediad i unrhyw ran o'r cwricwlwm; mae hyn yn wir am weithgareddau allgyrsiol yr ysgol hefyd.
- Mae disgyblion anabl yr ysgol yn manteiso ar ystod o weithgareddau a gynhelir oddi ar safle'r ysgol.

Credwn bod y canlynol yn ardaloedd sydd angen eu datblygu o ran hygyrchedd yr ysgol ar gyfer disgyblion gydag anableddau :-

- Hyfforddiant rheolwyr a staff yr ysgol a gwella ymwybyddiaeth ar faterion anabledd ac oblygiadau deddfwriaeth ddiweddar.
- Cynyddu'r profiad wrth ymgynghori gydag unigolion, sefydliadau a mudiadau ar faterion anabledd.
- Darparu rhaglen o hyfforddiant ar gyfer materion anabledd mewn ysgolion.
- Darparu rhagor o adnoddau ar gyfer disgyblion anabl, megis llyfrau print bras, diweddaru offer ac adnoddau TGCh.

7. Sut mae trefniadaeth ein hysgol yn effeithio ar ddisgyblion anabl, er enghraifft yn nhermau ein polisïau, gweithdrefnau ac arferion:

Mae trefniadaeth yr ysgol a'i holl ddogfennau ac arferion yn delio yn deg ac yn gyfartal gyda phob disgybl ac mae hyn yn cynnwys disgyblion sydd yn dioddef rhyw fath o anabledd. Er enghraifft, mae Côd Ymddygiad yr ysgol yn gweithredu cyfle cyfartal ac yn yr un modd ein dogfennau ar ddysgu ac addysgu, teithiau ac ymweliadau. Nid yw disgyblion anabl yn cael eu heithrio o unrhyw weithgaredd.

8. Y Canlyniadau ar gyfer disgyblion anabl yn ein hysgol

Mae casglu gwybodaeth ac ystadegau perfformiad am ein disgyblion anabl yn bwysig i ni ym Mheniel. Byddwn yn casglu gwyboaeth ar y canlynol:-

- Ein dadansoddiad o ddata canlyniadau
  - Profion cenedlaethol (os yn gymwys)
  - dysgu ac addysgu
  - canlyniadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2

- Gwybodaeth ynglŷn â chyfleoedd i'n disgyblion anabl gyrchu'r cwricwlwm. Bydd hyn yn cynnwys casglu gwybodaeth adeg cyfnodau arsylwi gwersi.

- Cyflawniad ein disgyblion anabl mewn gweithgareddau allgyrsiol.

9. Barn y rheini yr ymgynghorwyd â hwy wrth ddatblygu ein cynllun

Goleuwyd ein cynllun gan farn a dyheadau y grwpiau canlynol ac rydym yn gwerthafawrogi eu cyfraniad yn fawr iawn.

- Ein plant a phobl ifanc anabl
- Rhieni a/neu ofalwyr ein disgyblion anabl
- Pobl eraill sy'n anabl a sefydliadau gwirfoddol
- Blaenoriaethau'r awdurdod lleol.

Ein blaenoriaethau wrth ymgynghori ynglŷn â'r cynllun oedd:-

- Parhau i gynllunio cwricwlwm yr ysgol ar gyfer anableddau disgyblion wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol, teithio drwy yr amrywiol ddosbarthiadau ac wrth iddynt drosglwyddo i ysgol Bro Myrddin.
- Hyfforddiant rheolwyr a staff yr ysgol a gwella ymwybyddiaeth ar faterion anabledd ac oblygiadau deddfwriaeth ddiweddar.
- Cynyddu'r profiad wrth ymgynghori gydag unigolion, sefydliadau a mudiadau ar faterion anabledd.

- Cynnal archwiliadau tymhorol o unrhyw ddiffygion yn yr adeilad gan ystyried disgwyliadau disgyblion gydag amryw o anableddau.

10. Prif flaenoriaethau ein cynllun hygyrchedd

10.1 Cynyddu ehangder cyfranogiad disgyblion anabl yng nghwricwlwm ein hysgol

Rydym yn cydnabod bod gwaith datblygu'r cwricwlwm yn cymryd llawer o amser. Rydym felly yn cynllunio ein datblygiadau drwy hyd oes y cynllun. Ein nod yw canolbwyntio ar feysydd craidd y cwricwlwm, gan gynnyws y sgiliau sylfaenol ac allweddol a blaenoriaethau eraill polisi cwricwlwm yr ysgol, Cynllun Datblygiad Ysgol a datblygiadau awdurdod a rhai cenedlaethol. Bydd y rhain yn cael eu harwain gan y rheolwyr ac athrawon hynny sydd â chyfrifoldebau penodol i ddatblygu materion cwricwlwaidd yn yr ysgol. Ein nod yw cyfuno'n dysgu gyda'n ysgolion partner er mwyn i ni fedru creu gwell cynnydd ac effaith, na petawn ni wedi gweithredu wrth ein hunain.

Rydym yn manteisio ar ystod eang o bartneriaid allanol i'n cynorthwyo, sef : -

- Aelodau o dimau ardal
  - ymgynghorwyr
  - athrawon cynghori
  - seicolegwyr addysg
  - swyddogion lles addysg
  - swyddogion cymorth dysgu

- Athrawon cynghori arbenigol:
  - awtistiaeth
  - dyslecsia
  - lleferydd, iaith a chyfathrebu
  - Tim cynnal ymddygiad
  - TGCh nam ar y clyw
  - TGCh nam ar y golwg
  - swyddogion symudedd

- Cydweithwyr o'r gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol gan gynnwys
  - therapyddion iaith a lleferydd
  - therapyddion galwedigaethol
  - ffisiotherapyddion
  - paediatregwyr cymunedol

Rydym yn cydnabod bod gan ddisgyblion anabl yr hawl i gyrchu gweithgareddau y tu allan i'r cwricwlwm ffurfiol gan gynnwys: -

- amser hamdden
- symud o gwmpas yr ysgol
- digwyddiadau arbennig
- gweithgarwch allgyrsiol
- ymweliadau ysgol

10.2 Ein blaenoriaethau wrth gynyddu mynediad i'r cwricwlwm.

Byddwn yn datblygu'r rhain yn ystod oes y cynllun hwn.

10.3 Gwella trosglwyddiad gwybodaeth i ddisgyblion anabl sydd eisoes yn cael ei ddarparu'n ysgrifenedig i ddisgyblion nad ydynt yn anabl.

Rydym yn cydnabod na fydd fformat print safonol yn hygyrch i'n holl ddisgyblion anabl. Gwerthfawrogwn yr angen i i ddefnyddio'r cyfrwng gorau posib i sicrhau bod modd i'n disgyblion gyrchu gwybodaeth allweddol, megis taflenni gwaith, amserlenni, taflenni, hysbysiadau, llythyron a gwybodaeth ynglŷn â digwyddiadau mewn modd cyfartal.

Ein nod yw darparu gwybodaeth mewn ffurfiau hygyrch, gan gynnwys y canlynol :-

- darparu fersiynau mewn iaith syml ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau dysgu.
- cynnig systemau llun/symbol ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau cyfathrebu.
- defnyddio ffurfiau print bras ar gyfer disgyblion sy'n cael anawsterau gyda phrint safonol.
- darparu cyfarwyddiadau ar ffurf tapiau sain ar gyfer rhai disgyblion.

Rydym yn cydnabod y bydd rhai disgyblion angen ffurfiau arbennig, megis Braille. Os dyma fydd yr achos, byddwn yn cysylltu'n agos â Gwasanaeth Nam ar y Synhwyrau, Sir Gâr er mwyn sicrhau'r fformat.

11. Rhoi ein cynllun ar waith.

Ein proses rheoli, cydlynu a gweithredu.

Y Corff Llywodraethu sy'n gyfrifol am gynllun hygyrchedd yr ysgol a chreu cyfeiriad clir iddo. Byddwn yn monitro cynnydd ein cynllun yn flynyddol ac yn ei adolygu a'i ddiwygio bob tair blynedd. Byddwn yn sicrhau bod disgyblion anabl, eu rhieni a gofalwyr, y staff, gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld, a'r rheini o'r sector wirfoddol hefyd yn medru cyfrannu at ein hadolygiad.

Yn nhermau gwerthuso'n cynllun a'i effaith, byddwn yn gwahodd cydweithwyr o Dîm Ardal yr awdurdod lleol i'n cynorthwyo i werthuso'n cynllun a chwarae rôl y 'cyfaill beirniadol' drwy gynnig adborth. Byddwn yn ystyried yn y lle cyntaf, barn y rhanddeiliaid allweddol yn ein cynllun a byddwn yn ei gysylltu â'r data perfformiad ysgol.

Mae'r cynllun hwn wedi ei gysylltu gyda'n prosesau cynllunio ehangach, sef ein Cynllun Datblygiad Ysgol, Datblygiad proffesiynol parhaus, datganiadau ar gynhwysiant, rheoli asedau, polisi Iechyd a Diogelwch, polisi ar ddysgu ac addysgu, polisi cwricwlwm ac eraill. Rydym yn cydnabod yr angen i sicrhau bod ein cynllun yn ystyried gwaith gwasanaethau eraill yn enwedig iechyd.

Sicrhau bod ein cynllun ar gael i bawb.

Bydd ein cynllun ar gael i unrhyw un pan wneir cais.

MAP O'R YSGOL



CYNLLUN GWEITHREDU HYGYRCHEDD

			Adnoddau			
Blaenoriaeth	**Arweinydd**	**Graddfa amser**	**Dynol**	**Ariannol**	**Canlyniadau Disgwyliedig**	**Dyddiad Adolygu**
Sicrhau bod yr adeilad yn llwyr gydymffurfio â gofynion y ddeddf.	Pennaeth/ Rheolwr y Safle	Parhaol	-	O fewn cyllid yr adeiladu	Adeilad sy'n llwyr addas ar gyfer pob disgybl.	Yn rheolaidd
Sicrhau bod holl ddogfennaeth yr ysgol a gael mewn ffurf addas pan y gwneir cais amdano.	Pennaeth	Pan y gwneir cais	Amser i drefnu	Cyllid i dalu am wasanaeth pan bo angen	Dogfennaeth ar gael mewn dull pwrpasol.	Yn rheolaidd

Sicrhau hyfforddiant pwrpasol i aelodau staff pan fydd ei angen.	Cydgysylltydd HMS a CAAA	Pan fo angen			Staff wedi eu hyfforddi'n bwrpasol er mwyn ateb gyfynion unigolion.	Yn rheolaidd